

## Llangynnwr a Llundain


Flwyddyn yn ôl symudais i a fy nghariad Sioned i ardal Haverstock Hill yng ngogledd Llundain. Ro'n i'n barod yn ymwybodol fod tipyn o gysylltiadau hanesyddol rhwng Llundain â Chymru – o gladdu pen Bendigeidfran yn y 'Gwyn Fryn yn Llundain' i orsedd Iolo Morgannwg ar Fryn y Briallu – ond doedd dim syniad gen i fod cysylltiadau hefyd yn bodoli rhwng Llundain â Llangynnwr. Yn fanylach fyth, mae cysylltiadau rhwng yr union filltir sgwâr y symudais iddi â milltir sgwâr bro fy mebyd. Daw'r cyswllt hwn drwy wŷr o'r enw Richard Steele (1672–1729).

Wrth gerdded mas o'n fflat i stryd Haverstock Hill, i'r dde cewch strydoedd Steele's Road a Steele's Mews, ac i'r chwith mae tafarn moethus "The Sir Richard Steele". Enwau yn unig oedd rhain pan symudais yma, ond ar ôl ychydig o ymchwil, daeth i'r amlwg fod Syr Richard yn llenor a gwleidydd enwog o'r 18<sup>fed</sup> ganrif ond yn bwysicach na hynny ei fod wedi treulio blynyddoedd olaf ei fywyd yn Llangynnwr!



Gwyddel oedd Syr Richard yn wreiddiol ond treuliodd rhan fwyaf o'i fywyd yn Lloegr gan dderbyn addysg yn ysgol bonedd Charterhouse yn Surrey ac mewn amryw golegau yn Rhydychen, cyn ymsefydlu ar Haverstock Hill yn Llundain. Treuliodd gyfnod byr yn y fyddin ond cyfnod tipyn hirach fel gwleidydd. Roedd yn aelod seneddol gyda'r Chwigiadaid – a oedd yn rheoli'r senedd ar y pryd – gan 'gynrychioli' etholaethau yn Swydd Efrog a Hampshire; roedd hyn cyn oedd rhaid i wleidyddion gael unrhyw gysylltiad â'r rhanbarthau yr oeddent yn eu cynrychioli, ac felly treuliodd Richard braidd dim amser yn y 'rotten boroughs' rhain. Oherwydd ei ddaliadau gwleidyddol ond hefyd ei ddiddordeb mewn llên, llythyru, a newyddiaduraeth, daeth Richard yn aelod o'r Kit-Cat Club, sef grŵp o ddynion bonheddig – gan gynnwys Prif Weinidog cyntaf Prydain, Robert Walpole – a ymddiddorai yng ngwleidyddiaeth ryddfrydol ac mewn llên o bob math. A dyma ddod at enwogrwydd Richard Steele, sef yn y byd llenyddol.

Wedi iddo gael ei urddo gan y Brenin Siôr I yn 1714, daeth Richard yn bennaeth ar un o theatrau mawr y West End, Drury Lane, a chyfansoddodd sawl drama ar ei chyfer. Er nad oes yr un ohonynt yn arbennig o boblogaidd heddiw, roedd y comedi *The Conscious Lovers* yn dipyn o 'hit' yn ei ddydd. Ond heddiw, prif enwogrwydd Richard Steele yw fel traethodydd a llythyrydd toreithiog ac am sefydlu clwstwr o gylchgronau sy'n boblogaidd hyd heddiw gan gynnwys y cylchgrawn



wleidyddol *The Spectator* a'r cylchgrawn ar ddiwylliant, ffasiwn a newyddion y dosbarth uchaf, *Tatler*.

Ond pennod fwyaf difyr bywyd Richard Steele i ddarllenwyr Cwlmw oedd pan symudodd i Langynnwr ar ôl ymddeol ym 1724. Ei ail wraig oedd y rheswm dros y symud hwn: Mary Scurlock, merch siryf Caerfyrddin ac etifedd ystâd Llangynnwr, sef y bryniau lle mae Eglwys Llangynnwr a fferm Tygwyn, sef cartref olaf y cwpwl priod ar ôl symud yn ôl o Haverstock Hill yn Llundain. Ni wyddwn ryw lawer am fywyd Syr Richard yng Nghaerfyrddin ym mhym mlynedd olaf ei fywyd ond chynhyrchodd yr un ddrama, llythyr na thraethawd pan oedd yno, felly mae'n debyg mai bywyd digon tawel y cafodd yn Nhygwyn. Serch hynny, mae'n bosib y bu'n brysur yng nghanol y dref – gweler enw Steele's Avenue tu ôl Picton Terrace – ac mae'n sicr iddo gael ryw fath o argraff ar ambell eglwyswr oherwydd fe'i claddwyd ef yn Eglwys San Pedr a chaiff ei goffáu mewn cofeb farmor a ffenestr liw yn Eglwys Llangynnwr hefyd.

Mae'n braf meddwl felly nad fi yw'r cyntaf i ddod â'r cornel penodol hwn o Lundain a'r cornel penodol honno o Gaerfyrddin ynghyd, a phryd bynnag yr af i am beint i'r 'local', mae'n braf cael meddwl am adre.

